ATODLEN 1

PLAN SAFLE 1 A PHLAN SAFLE 1a

Y PRIFFORDD SYDD I'W GWELLA

Ffordd Ddiddosbarth Chester Road East

Y PRIFFYRDD SYDD I'W CAU	**MANYLION Y PRIFFYRDD NEWYDD**		
	Llythyren gyfeirnod y Briffordd Newydd	**Awdurdod Priffyrdd**	**Dosbarthiad y Briffordd**
Darn o ffordd ddiddosbarth sy'n rhan o hen Safle Amwynderau'r Cyngor, sy'n gorwedd i'r gogledd-orllewin o'r B5129 Chester Road East a Fferm Dry Bridge, o bwynt 27 o fetrau i'r gogledd-orllewin o gyffordd y B5129 Chester Road East, tua'r gogledd-orllewin am bellter o 36 o fetrau a'i lled yn y man lletaf yn 27 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 1/S1 iddi ar Blan Safle 1).	-	-	-
Darn o'r ffordd ddiddosbarth Chester Road East, o bwynt 7 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r fynedfa breifat i'r Is-orsaf Drydan a Hen Iard y Cyngor, tua'r gogledd-ddwyrain am bellter o 11 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 1/S2 iddi ar Blan Safle 1).	-	-	-
Darn o'r ffordd ddiddosbarth Chester Road East sy'n arwain at Bridge Houses, o'i therfyn gogledd-ddwyreiniol, wrth y fynedfa â chlwyd ar ei thraws tuag at hen safle Depo Cyngor Sir y Fflint/Bromborough Plastics a safle Knauf Insulation Limited/Cyngor Sir y Fflint (sy'n cydfodoli â'r fynedfa breifat i gerbydau sydd â'r cyfeirnod 1/2 sydd i'w chau), tua'r de-orllewin am bellter o 56 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 1/S3 iddi ar Blan Safle 1).	-	-	-
Y cyfan o Lwybr Troed 15 (Gorllewin Saltney), ar ei lwybr diffiniol, o'i gyffordd â'r gefnffordd (yr A494), tua'r de-ddwyrain hyd at ei gyffordd â Chemistry Lane/Factory Road, pellter o 374 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 1/S4 iddo ar Blan Safle 1).	1/A (llwybr troed) (ar Blan Safle 1a)	Cyngor Sir y Fflint	-

Y MYNEDFEYDD PREIFAT SYDD I'W CAU	RHIF CYFEIRNOD Y FYNEDFA BREIFAT NEWYDD
Llwybr mynediad preifat i safle Knauf Insulation Limited/Cyngor Sir y Fflint (sy'n cydfodoli â'r briffordd y rhoddwyd y cyfeirnod 1/S3 iddi sy'n arwain at 1 – 4 Bridge Houses sydd i'w chau), o'i chyffordd hanesyddol â Chester Road East, tua'r gogledd-ddwyrain at y fynedfa â chlwyd ar ei thraws at hen safle Depo Cyngor Sir y Fflint/Bromborough Plastics a safle Knauf Insulation Limited/Cyngor Sir y Fflint am bellter o 56 o fetrau (y rhoddwyd y rhif 1/1 iddo ar Blan Safle 1).	-
Ffordd fynediad breifat â chlwyd ar ei thraws i hen safle Depo Cyngor Sir y Fflint/Bromborough Plastics, a safle Knauf Insulation Limited/Cyngor Sir y Fflint, o'r glwyd wrth ei chyffordd â Chester Road East, tua'r gogledd-ddwyrain am bellter o 173 o fetrau hyd at ei therfyn ffordd bengaead (y rhoddwyd y rhif 1/2 iddi ar Blan Safle 1).	-
-	1/3a (ar Blan Safle 1a)

ATODLEN 2

PLAN SAFLE 2 A PHLAN SAFLE 2a

PRIFFYRDD SYDD I'W GWELLA (A DDARLUNNIR AR BLAN SAFLE 2a)

Ffordd ddiddosbarth o'r enw By Pass Road

Llwybr Troed 6 (Gorllewin Saltney)

Y PRIFFYRDD SYDD I'W CAU	MANYLION Y PRIFFYRDD NEWYDD		
	Llythyren gyfeirnod y Briffordd Newydd	Awdurdod Priffyrdd	Dosbarthiad y Briffordd
Darn o ffordd ddiddosbarth o'r enw By-Pass Road, ac sy'n cydfodoli â'r fynedfa breifat y rhoddwyd y cyfeirnod 2/1 iddi ar Blan Safle 2, o'i chyffordd â'r gefnffordd (yr A494), wrth bwynt 110 o fetrau i'r de-orllewin o lan dde-orllewinol Afon Dyfrdwy, i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain am bellter o 109 o fetrau gan gynnwys Llwybr Troed 14 (Gorllewin Saltney) (y rhoddwyd y cyfeirnod 2/S1 iddo ar Blan Safle 2).	2/A (ar Blan Safle 2a)	Cyngor Sir y Fflint	Ffordd Ddiddosbarth

Darn o Lwybr Troed 7 (Gorllewin Saltney), o'i gyffordd â'r B5441 Station Road, tua'r de-ddwyrain, tua'r gogledd-ddwyrain, tua'r de-orllewin, yna tua'r de-ddwyrain am bellter o 356 o fetrau, hyd at bwynt ar frig y llwybr mynediad sy'n arwain at lan dde-orllewinol Afon Dyfrdwy, a chan gynnwys ei chainc 35 o fetrau o hyd sy'n arwain oddi ar lain ymyl gogledd-orllewinol y gefnffordd (yr A494) ac sy'n ymuno â'r darn arall o Lwybr Troed 7 (Gorllewin Saltney) a grybwyllir uchod lle mae'n rhedeg rhwng Pencadlys Canolfan Lluoedd y Fyddin Wrth Gefn (Sgwadron Trafnidiaeth 398 (Iwmoniaeth Sir y Fflint a Sir Ddinbych)) a Garej Lindop Toyota Queensferry, am gyfanswm pellter o 391 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 2/S2 iddo ar Blan Safle 2).	2/B (ar Blan Safle 2a) (llwybr beicio sydd â hawl tramwy ar droed) (sy'n cydfodoli â mynedfa breifat newydd 2/10a) (ar Blan Safle 2a)	Cyngor Sir y Fflint	-
Darn o'r gefnffordd (yr A494), fel sy'n cael ei chario gan y bont bresennol dros Afon Dyfrdwy, o bwynt 30 metr i'r de-orllewin o lan dde-orllewinol Afon Dyfrdwy, tua'r gogledd-ddwyrain am bellter o 160 o fetrau, hyd at bwynt 23 metr i'r gogledd-ddwyrain o lan ogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy (y rhoddwyd y cyfeirnod 2/S3 iddo ar Blan Safle 2).	-	-	-
-	2/C (ar Blan Safle 2a)	Cyngor Sir y Fflint	Ffordd Ddiddosbarth
-	2/D (ar Blan Safle 2a)	Cyngor Sir y Fflint	Ffordd Ddiddosbarth

Y MYNEDFEYDD PREIFAT SYDD I'W CAU	**RHIF CYFEIRNOD Y FYNEDFA BREIFAT NEWYDD**
Llwybr Mynediad Preifat (sy'n cydfodoli â darn o ffordd ddiddosbarth o'r enw By-Pass Road, y rhoddwyd y cyfeirnod 2/S1 iddo ar Blan Safle 2, Llwybr Troed 14 (Gorllewin Saltney) a Llwybr Troed 7 (Gorllewin Saltney), a 2/S2 iddynt ar Blan Safle 2), sy'n arwain at Garafannau 1 – 20 ar Safle Sipsiwn a Theithwyr Riverside; y Riverside Joinery; Chaloner Auto Repairs Ltd; glan dde-orllewinol Afon Dyfrdwy; tir draenio (o Sianel Agored Draen Queensferry); Safle Trin Carthion Queensferry; tyddyn segur sy'n cynnwys cae a thŷ allan; Gorsaf Bwmpio Queensferry; llifddor llanw a gollyngfa dŵr mewn cwlfert	-

o Afon Dyfrdwy a J & M Garner Haulage, o'i gyffordd â'r gefnffordd (yr A494) wrth bwynt 110 o fetrau i'r de-orllewin o lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy, i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain am bellter o 98 o fetrau (y rhoddwyd y rhif 2/1 iddo ar Blan Safle 2).	
Llwybr Mynediad Preifat at adeiladau Riverside Joinery a Chaloner Auto Repairs Limited, ac i lan dde-orllewinol Afon Dyfrdwy (sy'n cydfodoli â rhan o Lwybr Troed 7 (Gorllewin Saltney)), pellter o 23 o fetrau (y rhoddwyd y rhif 2/2 iddo ar Blan Safle 2).	-
Mynedfa i gerbydau/cerddwyr â chlwyd ar ei thraws o'r ffordd ddiddosbarth o'r enw By Pass Road (sy'n cydfodoli â'r Llwybr Mynediad Preifat a ddisgrifir fel 2/4 isod) sy'n croesi Llwybr Troed 6 (Gorllewin Saltney) ac sy'n gorwedd i'r de-ddwyrain o'r gefnffordd (yr A494) ac i'r de-orllewin o lan dde-orllewinol Afon Dyfrdwy, wrth bwynt 26 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r gefnffordd (yr A494), hyd at dir draenio (Sianel Agored Draen Queensferry), pellter o 4 o fetrau, (y rhoddwyd y rhif 2/3 iddo ar Blan Safle 2).	-
Rhan o'r ffordd fynediad sy'n arwain at weithfeydd Trin Carthion Queensferry, o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw By-Pass Road (sy'n cydfodoli â'r Llwybr Mynediad Preifat a ddisgrifir fel 2/1 uchod), wrth bwynt 31 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r gefnffordd (yr A494), i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain am bellter o 59 o fetrau (y rhoddwyd y rhif 2/4 iddi ar Blan Safle 2).	-
Mynedfa i gerbydau/cerddwyr â chlwyd ar ei thraws o'i chyffordd ag ochr dde-orllewinol y ffordd ddiddosbarth o'r enw By-Pass Road (sy'n cydfodoli â'r Llwybr Mynediad Preifat a ddisgrifir fel 2/1 uchod), wrth bwynt 51 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r gefnffordd (yr A494), tua'r de-orllewin at brysgdir, tyddyn segur sy'n cynnwys cae a thŷ allan, pellter o 7 o fetrau (y rhoddwyd y rhif 2/5 iddi ar Blan Safle 2).	-
Llwybr mynediad i gerbydau/cerddwyr â chlwyd ar ei draws o'i gyffordd ag ochr ogledd-orllewinol y ffordd ddiddosbarth o'r enw By-Pass Road (sy'n cydfodoli â'r Llwybr Mynediad Preifat a ddisgrifir fel 2/1 uchod), wrth bwynt 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r gefnffordd (yr A494), tua'r gogledd-orllewin at safle presennol Gorsaf Bwmpio Queensferry sydd wedi ei lleoli oddi ar lan dde-orllewinol Afon Dyfrdwy, pellter o 33 o fetrau (y rhoddwyd y rhif 2/6 iddi ar Blan Safle 2).	-

Mynedfa i gerddwyr â chlwyd ar ei thraws o'i chyffordd â'r llwybr mynediad sy'n arwain at safle presennol Gorsaf Bwmpio Queensferry sydd wedi ei lleoli oddi ar lan dde-orllewinol Afon Dyfrdwy, wrth bwynt 3 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw By-Pass Road, tua'r gogledd-ddwyrain i safle llifddor llanw a gollyngfa dŵr mewn cwlfert o Afon Dyfrdwy, pellter o 1 metr (y rhoddwyd y rhif 2/7 iddi ar Blan Safle 2).	-
Mynedfa i gerbydau/cerddwyr â chlwyd ar ei thraws sef y fynedfa i safle J & M Garner Haulage o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw By Pass Road (sy'n cydfodoli â'r Llwybr Mynediad Preifat a ddisgrifir fel 2/1 uchod), wrth bwynt 92 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r gefnffordd (yr A494), i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain am bellter o 4 fetr (y rhoddwyd y rhif 2/8 iddi ar Blan Safle 2).	-
Mynediad i gerbydau/cerddwyr â chlwyd ar ei thraws o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw By Pass Road (sy'n cydfodoli â'r Llwybr Mynediad Preifat a ddisgrifir fel 2/1 uchod), wrth bwynt 95 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r gefnffordd (yr A494), i'r hen iard sgrap (Queensferry Car Spares), tua'r de-orllewin am bellter o 5 fetr (y rhoddwyd y rhif 2/9 iddi ar Blan Safle 2).	-
-	2/10a (ar Blan Safle 2a) (sy'n cydfodoli â phriffordd newydd 2/B ar Blan Safle 2a)
-	2/11a (ar Blan Safle 2a)

ATODLEN 3

PLAN SAFLE 3

Y PRIFFYRDD SYDD I'W GWELLA

Llwybr Troed 2 (Sealand)/Llwybr 568 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Llwybr Arfordir Cymru)

Claremont Avenue

Llwybr troed anffurfiol rhwng Claremont Avenue a Llwybr Troed 2 (Sealand)/Llwybr 568 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Llwybr Arfordir Cymru)

Y PRIFFYRDD SYDD I'W CAU	**MANYLION Y PRIFFYRDD NEWYDD**		
	Llythyren gyfeirnod y Briffordd Newydd	**Awdurdod Priffyrdd**	**Dosbarthiad y Briffordd**

Cau dros dro ddarn o Lwybr Troed 2 (Sealand)/Llwybr 568 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Llwybr Arfordir Cymru), o'i gyffordd â llwybr beicio integredig y gefnffordd (yr A494), sy'n gorwedd ar ochr dde-ddwyreiniol ei cherbytffordd tua'r gorllewin, tua'r de-ddwyrain am bellter o 165 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 3/S1 iddo ar Blan Safle 3).	3/A (Llwybr beicio dros dro (sydd â hawl tramwy ar droed))	Gweinidogion Cymru	-
Darn o Lwybr Troed 2 (Sealand)/Llwybr 568 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Llwybr Arfordir Cymru), o'i gyffordd â'r llwybr troed anffurfiol sy'n arwain at Claremont Avenue, tua'r de-ddwyrain am bellter o 170 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 3/S3 iddo ar Blan Safle 3)	-	-	-
Darn o lwybr troed diddosbarth o'i gyffordd â Llwybr Troed 2 (Sealand)/Llwybr 568 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Llwybr Arfordir Cymru), sy'n arwain at Foxes Lane, tua'r dwyrain am bellter o 170 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 3/S3 iddo ar Blan Safle 3)	-	-	-
-	3/B Rhan ddisodli newydd o Lwybr Troed 2 (Sealand) / Llwybr 568 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Llwybr Arfordir Cymru)	Cyngor Sir y Fflint	-
-	3/C Llwybr troed a llwybr beicio	Cyngor Sir y Fflint	-

Y MYNEDFEYDD PREIFAT SYDD I'W CAU	**RHIF CYFEIRNOD Y FYNEDFA BREIFAT NEWYDD**
-	3/1a